

Cod Ymarfer Ariannu a Monitro 2013



ADRAN	CYNNWYS	RHIF TUDALEN
1	Cod i bwy yw hwn?	3
2	Nod	3
3	Beth yw Mudiad Trydydd Sector?	3
4	Egwyddorion sylfaenol	3
5	Sgôp	3
6	Mathau o ariannu	4
7	Hysbysu am gyfleoedd ariannu	4
8	Mynediad at gyfleoedd ariannu	4
9	Dogfennau cytundebol	5
10	Amrywiad Chwyddiant	6
11	Hyd Cytundebau Ariannu	6
12	Polisi Ariannol Wrth Gefn	6
13	Monitro a Gwerthuso Perfformiad	6
14	Adroddiadau Ariannol	7
15	Gweithdrefnau Talu	7
16	Tanwariant / Gorwariant	8
17	Diwedd Ariannu gan y Cyngor a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	9
18	Ymyriad pan fo sefydliad a ariennir mewn anhawster ariannol neu'n wynebu anhawster arall	9
19	Cymhwyso'r Cod	9
20	Adolygu'r Cod	9
21	Torri amodau'r Cod a datrys anghydfodau	10
 ATODIADAU		
4	Gweithdrefn Datrys Anghydfodau	11 – 14
5	Llyfryddiaeth	15
6	Y Broses Ddatblygu ac Ymgynghori	16

1. COD I BWY YW HWN?

Mae gwasanaethau a ddarperir gan fudiadau Trydydd Sector yn rhan hanfodol o amrywiaeth y gwasanaeth a ddarperir i ateb: anghenion y gymuned, blaenoriaethau strategol, anghenion defnyddwyr a blaenoriaethau gwasanaethau.

Mae'r Cod hwn ar gyfer y mudiadau Trydydd Sector hynny sy'n derbyn cyllid neu a allai ymgeisio am gyllid gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ['y Cyngor'] neu Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ['y Bwrdd Iechyd'], yn cynnwys canllawiau ar y gofynion monitro a gwerthuso sy'n cyd-fynd â chyllid o'r fath.

2. NOD

Nod y cod ymarfer hwn yw cynnal y berthynas gadarnhaol sy'n bodoli rhwng y Cyngor, y Bwrdd Iechyd a'r Trydydd Sector yn Wrecsam, ac mae'n nodi rhai egwyddorion monitro a chyllido a fydd yn effeithio ar y Trydydd Sector.

3. BETH YW MUDIAD TRYDYDD SECTOR?

Mae Llywodraeth Cymru yn disgrifio nodweddion cyffredin y Trydydd Sector fel cyrff annibynnol, nad ydynt yn gysylltiedig â'r llywodraeth, a sefydlwyd yn wirfoddol gan ddinasyddion wedi eu cymell gan yr awydd i gyflawni amcanion cymdeithasol, diwylliannol neu amgylcheddol ac sydd wedi ymrwymo i ailfuddsoddi unrhyw warged yn yr amcanion hyn.

Mae'r term Trydydd Sector yn ddisgrifiad eang iawn, sy'n cynnwys cymdeithasau cymunedol, grwpiau hunangymorth, mudiadau gwirfoddol, elusennau, mudiadau ffydd, mentrau cymdeithasol, busnesau cymuned, cymdeithasau tai, cydweithredfeydd a mudiadau cydfuddiannol yn ogystal â llawer o rai eraill. Mae gan y mathau hyn o fudiadau lawer o wahanol ffurfiau cyfreithiol. Gallant fod yn elusennau cofrestredig neu anghofrestredig, cwmnïau cyfyngedig trwy warant (a allai fod yn elusen gofrestredig hefyd), Cwmni Buddiannau Cymunedol, Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus a chymdeithasau anghorfforedig.¹

4. EGWYDDORION SYLFAENOL

- Rhoir statws gydradd i'r Trydydd Sector, y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd ac mae'n rhoi hawliau a chyfrifoldebau ar bob partner.
- Mae'r Cod yn darparu canllawiau ymarferol ac mae'n ddarostyngedig i fonitro ac adolygu fel bo'n briodol.
- Bydd y Cod yn sicrhau bod tryloywder yn nodwedd allweddol o'r holl drefniadau monitro a chyllido.

5. SGÔP

¹ Llywodraeth Cynulliad Cymru. (2008). Y Trydydd Dimensiwn: Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Cynllun y Trydydd Sector (Sector Gwirfoddol). Caerdydd. Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae'r Cod Ymarfer hwn yn ymwneud yn bennaf â chyllid a dderbynnir gan y Trydydd Sector oddi wrth y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd, un ai'n unigol neu ar y cyd. Lle bo cyllid yn cael ei weinyddu gan y Cyngor neu'r Bwrdd Iechyd ar ran trydydd parti, dilyniir y meini prawf a nodir gan y corff ariannu trydydd parti.

6. MATHAU O ARIANNU

Mae'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod rhai mudiadau Trydydd Sector yn darparu cefnogaeth strategol i'w nodau ac amcanion cyffredinol, a gall roi cymorth iddynt trwy gyfrwng arian grant.

Lle bo'n ofynnol cael gwasanaeth penodol bydd hyn yn cael ei ddyfarnu'n gyffredinol trwy broses tendro cystadleuol, a fydd yn agored i fudiadau Trydydd Sector a sefydliadau sector preifat a all ddewis ymgeisio am y tendr.

Mewn rhai achosion bydd y Bwrdd Iechyd yn cyfyngu ar y meini prawf i ganiatáu i fudiadau Trydydd Sector yn unig wneud cais am y tendr.

Yn arferol nid yw'r Bwrdd Iechyd yn darparu cyllid ar gyfer asedau cyfalaf.

7. HYSBYSU AM GYFLEOEDD ARIANNU

Hysbysir am gyfleoedd ariannu ar wefan Gwerthwch i Gymru - www.sell2wales.co.uk - fel y cyfyd y cyfleoedd hynny. Weithiau gallai'r Cyngor hysbysebu trwy wefan Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam, AVOW, ynghylch dosbarthu grantiau. Gallai swm cyllido dros £25,000 fynd trwy broses gaffael gystadleuol.

8. MYNEDIAD AT GYFLEOEDD ARIANNU

Gallai dyrannu'r cyllid gael ei benderfynu yn unol â phroses gomisiynu sy'n:

- Nodi'r math o angen a lefel yr angen.
- Nodi swm ac ystod y gwasanaethau sy'n ofynnol i ateb yr angen, o fewn yr adnoddau sydd ar gael.
- Adolygu gwasanaethau presennol yn ôl egwyddorion gwerth gorau, asesu eu gallu i ateb yr angen a nodwyd ac annog arloesi ac effeithlonrwydd.
- Datblygu cynllun i ateb angen presennol ac anghenion i'r dyfodol [yn enwedig lle nad yw'r gwasanaethau presennol yn bodloni'r anghenion presennol neu anghenion y dyfodol].
- Penderfynu ar y pris trefnu arian grant/contract ar gyfer gweithgareddau a/neu wasanaethau.

Lle bo'r Cyngor a/neu'r Bwrdd Iechyd yn penderfynu eu bod angen prynu gwasanaethau trwy broses dendro bydd hyn yn unol â'r Rheoliadau Contract Cyhoeddus.

Cymorth Gwladwriaethol:

Lle bo angen i'r Cyngor a/neu'r Bwrdd lechyd sicrhau nad ydynt yn torri deddfwriaeth Cymorth Gwladwriaethol bydd yn ofynnol i dderbynydd y cyllid ddarparu'r holl wybodaeth ariannol sy'n ofynnol ar gyfer unrhyw ymchwiliad.

Hysbysebu:

Bydd y Cyngor neu'r Bwrdd lechyd yn hysbysebu cyfleoedd cyllido ar y wefan Gwerthwch i Gymru - www.sell2wales.co.uk – a llwyfannau hysbysebu eraill a ystyrir yn briodol. Bydd y rhain yn nodi'r amserlen ymgeisio a'r meini prawf dyfarnu'r arian.

9. DOGFENNAU CYTUNDEBOL

Lle bo'r Cyngor a'r Bwrdd lechyd wedi dyfarnu cyllid trwy broses gaffael neu wedi cytuno i roi cymorth grant [neu ddarparu cymorth mewn nwyddau neu wasanaethau] i fudiad Trydydd Sector bydd hyn yn cael ei reoli trwy gytundeb ariannu.² Gallai hyn fod ar ffurf:

(i) Llythyr Cytundeb

Gallai hyn fod rhwng y Cyngor, neu'r Bwrdd lechyd, neu'r ddau. Yn arferol bydd Llythyr Cytundeb yn dynodi ariannu tymor byr llai na £5000. Bydd y llythyr yn defnyddio'r Memorandwm Cyllid Grant sy'n nodi telerau'r cytundeb ac yn nodi'r gweithgaredd neu'r gwasanaeth i'w ddarparu gan fudiad Trydydd Sector a'r gofynion perfformiad.

(ii) Cytundeb Ariannu

Gall hwn fod rhwng y Cyngor, neu'r Bwrdd lechyd, neu'r ddau. Mae Cytundeb Ariannu yn nodi telerau'r cytundeb ac yn nodi'r gweithgaredd neu'r gwasanaeth i'w ddarparu gan fudiad Trydydd Sector a'r gofynion perfformiad ar gyfer lefel cyllid uwch na £5000. Bydd hefyd yn cynnwys cymal yn ymwneud â phob parti yn cytuno i unrhyw newid yn y fanyleb ac unrhyw amrywiadau yn y taliad a'r gofynion perfformiad yn deillio o hynny.

(iii) Contract Trydydd Sector

Gall hwn fod rhwng y Cyngor, neu'r Bwrdd lechyd, neu'r ddau. Bydd y contract yn nodi dyddiadau'r taliadau; lefelau'r taliadau am wasanaethau a ddarperir dan y fanyleb ac yn nodi'r ddarpariaeth ar gyfer unrhyw gynnydd yn y dyfodol yn ystod cyfnod y contract. Bydd hefyd yn cynnwys cymal yn ymwneud â phob parti yn cytuno i unrhyw newid ym manyleb y contract ac unrhyw amrywiadau yn y taliad a'r gofynion perfformiad yn deillio o hynny.

(iv) Cytundeb Partneriaeth

Defnyddir y math hwn o gytundeb lle bo'r awdurdod lleol a mudiad Trydydd Sector yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu gwasanaeth penodol. Mae'n

² Mae "Canllawiau Comisiynu'r Trydydd Sector" yn cynnwys tri model cytundebol i'w defnyddio gyda chyllid i'r Trydydd Sector (gweler Atodiad i): Contract Gwasanaeth, Cytundeb Cyllid Grant ar gyfer grantiau mwy na £5000 a Memorandwm Cyllid Grant ar gyfer grantiau llai na £5000

nodi rolau a chyfrifoldebau bob partner a bydd yn cynnwys y gofynion perfformiad gan y ddau bartner.

10. AMRYWIAD CHWYDDIANT

Bydd yr amrywiad blynyddol ar gyfer chwyddiant yn cael ei bennu gan y sefydliadau ariannu. Dylid rhyddhau'r hysbysiad amrywiad chwyddiant ym mis Rhagfyr os yn bosibl.

Mae'r Trydydd Sector yn derbyn nad yw amrywiad chwyddiant yn gynydd gwarantiedig yn y cyllid ac na ddylid ymrwymo i unrhyw ymrwymadau ariannol nes derbyn hysbysiad ysgrifenedig o'r ffigur amrywiad.

11. HYD Y TREFNIANT ARIANNU

Mae'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd yn sylweddoli bod trefniadau ariannu tymor hirach yn annog sefydlogrwydd mewn mudiadau Trydydd Sector ac yn eu helpu i gadw staff profiadol. Felly bydd trefniadau ariannu tair blynedd, gyda'r potensial ar gyfer estyniad dwy flynedd, yn cael eu hystyried fel y trefniant safonol, yn ddarostyngedig i delerau ac amodau perfformiad a gofynion rhybudd safonol. Lle bo'r gwasanaeth neu'r gweithgaredd yn un tymor byr neu'n gynllun peilot, neu os yw'r cyllid ar gael am gyfnod cyfyngedig yn unig, efallai na fydd trefniadau ariannu tymor hirach yn briodol.

12. POLISI ARIAN WRTH GEFN

Mae'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd yn sylweddoli bod angen i fudiadau Trydydd Sector sicrhau eu bod yn ddichonadwy y tu hwnt i'r dyfodol agos yn unig.

Dywed y Comisiwn Elusennau bod rhaid i fudiadau fod mewn sefyllfa i amsugno unrhyw ergydion a manteisio ar unrhyw newidiadau a chyfleoedd, er mwyn darparu gwasanaethau dibynadwy. Mae llawer o fudiadau yn darparu ar gyfer hyn trwy roi peth o'u hincwm presennol i'r naill ochr, pan fedrant fforddio gwneud hynny, fel arian wrth gefn yn erbyn unrhyw ansicrwydd yn y dyfodol. Mae 'cronfa wrth gefn' yn wahanol i gronfeydd penodol neu gronfeydd cyfyngedig.

Bydd mudiadau Trydydd Sector yn cyhoeddi 'Polisi Cronfeydd Wrth Gefn' yn nodi cyfiawnhad yr Ymddiriedolwyr dros lefel yr arian wrth gefn, yn benodol yng nghyswllt maint y mudiad, ei drosiant blynyddol a natur y gwasanaethau a ddarperir.

13. MONITRO A GWERTHUSO PERFFORMIAD

Mae monitro a gwerthuso perfformiad yn hanfodol ar gyfer sicrhau defnyddio cyllid cyhoeddus yn briodol a nodi cyfleoedd datblygu'r gwasanaeth. Tra bo'n

rhaid iddo fod yn gadarn ac effeithiol, dylai hefyd fod yn gyfrannol i lefel yr ariannu a'r risg.

Mae'r Cyngor, y Bwrdd Iechyd a'r Trydydd Sector yn sylweddoli ac yn cydnabod y bydd gofynion gwerthuso a monitro gwahanol ar gyfer gwahanol fathau a lefelau ariannu. Seilir y rhain ar egwyddorion Gwerth Gorau.

Mae Gwerth Gorau yn cynrychioli dull o fonitro a gwerthuso gwasanaeth sy'n ystyried effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a pha mor ddarbodus yw'r cyfrif. Y nod yw sicrhau bod y Cyngor yn darparu rhagoriaeth mewn gwasanaethau lleol am gost rhesymol – hynny yw, gwasanaethau sy'n cyfateb i anghenion a blaenoriaethau pobl.

Nodir y gofynion gwerthuso a monitro penodol yn y cytundeb ariannu. Bydd y broses werthuso yn ymgynghori â defnyddwyr y gwasanaeth ac yn ystyried allbynnau a deilliannau yng nghyswllt blaenoriaethau'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd. Cynhelir y gwerthuso ar y cyd, yn unol ag amserlen gytunedig. Bydd methu â darparu gwybodaeth neu gyflawni'r deilliannau neu'r allbynnau gytunedig mewn cytundeb ariannu yn arwain at atal yr ariannu.

Darperir adborth o'r gwerthuso a'r monitro gan y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd, ac fe'i defnyddir fel sail ar gyfer trafod dyfodol y cytundeb ariannu. Bydd cyllidwyr yn anelu at ddarparu unrhyw adborth ar y gwerthuso a'r monitro cyn pen deufis.

Monitro ariannu ar y cyd gan y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd

Lle bo mudiad yn cael ei ariannu ar y cyd gan y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd nodir swyddog o un o'r sefydliadau ariannu fel swyddog cyswllt, a fydd yn gweithredu ar ran y ddau bartner statudol.

Monitro cyllid allanol a weinyddir gan y Cyngor neu'r Bwrdd Iechyd

Bydd y gofynion gwerthuso a monitro yn glir yn y pecyn cais a bydd rhagor o fanylion ym manyleb y gwasanaeth. Bydd hyn yn unol â gofynion y corff cyllido e.e. Llywodraeth Cymru, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru.

14. ADRODDIADAU ARIANNOL

Bydd elusennau neu gwmnïau cyfyngedig trwy warant yn dilyn gofynion y Comisiwn Elusennau a/neu Dŷ'r Cwmnïau o ran adroddiadau ariannol a bydd yr adroddiadau ar gael i'r ariannwr fel rhan o'r broses fonitro (gweler y ddogfen CC15b - Charity Reporting and Accounting: The essentials Ebrill 2009 <http://www.charitycommission.gov.uk/publications/cc15b.aspx>).

15. GWEITHDREFNAU TALU

Mae'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd yn sylweddoli nad oes gan y rhan fwyaf o fudiadau Trydydd Sector ddigon o adnoddau i gyflawni gwaith yn gyntaf a derbyn taliad wedyn. Felly mae taliadau amserol yn hanfodol ar gyfer darparu

gwasanaethau'n llyfn a didrafferth. Felly bydd y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd yn gwneud taliadau chwarterol ymlaen llaw, ac eithrio dan amgylchiadau eithriadol. Os nad yw'r darparwydd yn darparu'r gwasanaeth cytunedig yn llawn neu os yw'n cael ei ddarparu'n rhannol bydd y taliadau ymlaen llaw yn cael eu had-dalu.

Bydd y Cyngor yn gwneud un taliad i'r rhai y dyfarnwyd £5,000 neu lai o gyllid iddynt. Lle bo'r arian wedi ei roi ar gyfer prynu eitemau cyfalaf bydd angen anfoneb fel tystiolaeth o'r pryniant.

Os bydd ein prosesau adolygu yn tynnu sylw at feysydd sy'n peri pryder, neu bod y gwiriadau ariannol yn cwestiynu sefydlogrwydd mudiad, dylid rheoli hyn yn ofalus ar sail ystyried amgylchiadau pob achos unigol. Er mwyn diogelu arian cyhoeddus gellid gwneud taliadau yn fisol ar ôl darparu'r gwasanaeth, neu newid y taliadau chwarterol ymlaen llaw i daliadau misol ymlaen llaw.

Treth ar Werth (TAW)

Bydd unrhyw gytundeb ariannu rhwng y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd (y cleient) a'r darparwydd gwasanaeth yn ddarostyngedig i'r protocolau TAW arferol. Os yw derbynnydd y cyllid wedi ei gofrestru ar gyfer TAW, a bod y cyflenwad i'r 'cleient' yn cael ei ystyried yn gyflenwad o natur drethadwy, disgwylir i ddarparwydd y gwasanaeth ddarparu anfoneb sy'n cydymffurfio'n llawn â gofynion TAW er mwyn rhyddhau taliad y cyllid cytunedig. Dylid codi TAW ar y gyfradd sy'n berthnasol ar y pwynt darparu'r gwasanaeth.

Disgwylir y bydd y derbynnyddion cyllid hynny nad ydynt yn gofrestredig ar gyfer TAW yn ceisio cyngor ynghylch unrhyw debygolrwydd o oresgyn y trothwy trosiant trethadwy cyn cytuno i dderbyn yr arian.

Cyllid Allanol a weinyddir gan y Cyngor

Bydd y gweithdrefnau talu yn unol â gofynion y corff cyllido.

16. TANWARIANT / GORWARIANT

Mae'r Trydydd Sector yn sylweddoli, lle na all mudiad unigol ddarparu'r gweithgaredd neu'r gwasanaeth fel a gytunwyd, mae'n debygol y bydd tanwariant y cyllid a ddyrannwyd. Os yw hyn yn digwydd bydd y mudiad Trydydd Sector yn hysbysu'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd am y tanwariant arfaethedig gynted ag y bo modd. Bydd hyn yn galluogi'r ddwy ochr i gytuno ar drefniadau wrth gefn.

Yng nghyswllt grantiau nodir a fydd y darparwydd yn cael cadw unrhyw danwariant yn yr amodau penodol a nodwyd yn y dogfennau dyfarnu'r grant.

Rheolir cyllid allanol yn unol â gofynion y corff cyllido e.e. Llywodraeth Cymru, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru.

Cyfrifoldeb y mudiad Trydydd Sector yw unrhyw orwariant. Rhaid i'r Ymddiriedolwyr sicrhau fod ganddynt broses briodol i adnabod unrhyw orwariant potensial yn gynnar.

17. DIWEDD ARIANNU GAN Y CYNGOR A BWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR

Mae'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod pan fo trefniadau ariannu yn diweddu neu bod angen aildendro y gallai'r broses bontio gael effaith negyddol potensial ar y mudiad Trydydd Sector a'i allu i recriwtio a chadw staff a gwirfoddolwyr. Felly, fel rhan o'n proses gomisiynu, byddwn yn hysbysu mudiadau Trydydd Sector am ein bwriadau yng nghyswllt gwasanaethau yn unol ag amserlen resymol. Lle gweinyddir cyllid gan drydydd parti dilynir amserlen gyhoeddedig y cyllidwr allanol.

18. YMYRIAD PAN FO SEFYDLIAD A ARIENNIR MEWN ANHAWSTER ARIANNOL NEU'N WYNEBU ANHAWSTER ARALL

Lle bo mudiad Trydydd Sector yn derbyn cyllid neu dan contract i ddarparu gwasanaethau mewn anhawster ariannol neu'n wynebu anhawster arall bydd yr Ymddiriedolwyr yn cyflwyno rhybudd ffurfiol am yr anawsterau i'r Cyngor neu'r Bwrdd Iechyd ar unwaith. Ymhellach, bydd y Cyngor neu'r Bwrdd Iechyd yn rhoi hysbysiad ffurfiol i fudiad Trydydd Sector petai pryderon o'r fath yn cael eu mynegi wrthynt.

Bydd mudiadau Trydydd Sector yn hysbysu'r Cyngor neu'r Bwrdd Iechyd ar unwaith yn achos colled ariannol. Dan amgylchiadau o'r fath bydd y Cyngor, y Bwrdd Iechyd a'r Trydydd Sector yn ceisio cytuno ar ffordd o symud ymlaen.

19. CYMHWYSO'R COD

Cyfrifoldeb y Pennaeth Adran perthnasol yn y Cyngor, y Bwrdd Iechyd a mudiadau Trydydd Sector fydd gweithredu'r canllawiau arferion da yn y Cod hwn.

20. ADOLYGU'R COD

Adolygir y Cod gan Grŵp Cyswllt y Trydydd Sector.

Cymeradwywir newidiadau i'r Cod gan Grŵp Cyswllt y Trydydd Sector a'u trosglwyddo i'r Pennaeth Cyllid i'w cymeradwyo. Lle bo'r Pennaeth Cyllid o'r farn bod angen cymeradwyaeth ychwanegol ar gyfer y newidiadau bydd ef/hi yn argymhell cyflwyno'r cod i un ai'r Bwrdd Gweithredol neu'r Uwch Dîm Rheoli i'w fabwysiadu. Bydd Bwrdd y Bwrdd Iechyd yn ceisio cymeradwyaeth yn unol â'i brosesau mewnol.

21. TORRI AMODAU'R COD A DATRYS ANGHYDFODAU

Bydd unrhyw achosion o dorri'r Cod, na ellir eu datrys rhwng y mudiad Trydydd Sector unigol ac adran o'r Cyngor a/neu'r Bwrdd Iechyd, yn cael ei gyfeirio at y Grŵp Cyswllt Trydydd Sector. Mae'r 'Weithdrefn Datrys Anghydfod' [Atodiad 1] yn esbonio sut y gall mudiadau Trydydd Sector hysbysu am faterion sy'n peri pryder.

ATODIAD 1

Gweithdrefn Datrys Anghydfod

Cyflwyniad

Mae'r holl bartion yn cydnabod rôl hanfodol bwysig y Trydydd Sector yn hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, gwella iechyd a lles poblogaeth Wrecsam a chryfhau cymunedau lleol.

Yn y "Cod Ymarfer Ariannu a Monitro" [ac yn y Cod Ymarfer Datrys Anghydfod] mae'r term 'Trydydd Sector' yn cynnwys mudiadau gwirfoddol a chymunedol a buddiannau gwirfoddoli. Diben y ddogfen hon yw esbonio sut y gall partneriaid dynnu sylw at faterion sy'n peri pryder os ydynt yn teimlo na ddilynwyd y Cod Ymarfer Ariannu a Monitro.

Mynegi pryder

Ni ellir ymdrin â'r holl bryderon dan y weithdrefn hon. Mae gan y Cyngor, y Bwrdd Iechyd, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam (AVOW) a darparwyr Trydydd Sector weithdrefnau cwynion ffurfiol ar gyfer unigolion neu fudiadau sy'n dymuno cwyno am wasanaeth a gawsant. Mae gweithdrefnau ar gyfer cwyno am ymddygiad Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol hefyd.

Y ffordd orau o ymdrin â materion am drefniadau ariannu unigol rhwng mudiad a'r Cyngor neu'r Bwrdd Iechyd yw cysylltu â'r swyddog sy'n gyfrifol am oruchwylio'r cytundeb. Ni ddylid defnyddio'r drefn hon i:

- Herio penderfyniadau ariannu unigol, neu
- Datrys torri amodau contract

onibai y teimlir nad yw'r Cyngor na'r Bwrdd Iechyd, yn unigol neu ar y cyd, wedi dilyn y Cod Ymarfer Ariannu a Monitro wrth wneud ei benderfyniad.

Dylid defnyddio'r weithdrefn hon lle bo'r Trydydd Sector yn credu bod y Cyngor yn ei gyfanrwydd, y Bwrdd Iechyd neu adran yn y cyrff hyn yn gweithio mewn modd nad yw'n dilyn y Cod Ymarfer Ariannu a Monitro. Yn yr achosion hyn swyddogaeth Grŵp Cyswllt y Trydydd Sector yw gwrando ar a datrys anghydfodau o'r fath.

Gall mudiadau Trydydd Sector fynegi pryder yn unigol neu ar y cyd. Hefyd gall mudiad, fforwm neu rwydwaith ymbarel fynegi pryderon ar ran un neu ragor o'i aelodau.

Y Weithdrefn

Cam 1

Yn gyntaf dylech gysylltu â'r Swyddog Cyswllt, trwy ffonio, e-bostio neu anfon llythyr. Bydd y Swyddog yn dilyn y weithdrefn isod **onibai** y penderfynir y byddai'n well ymdrin â'r pryder trwy drefn gwynion ffurfiol y Cyngor neu'r Bwrdd Iechyd. Cysylltir â Swyddog Cwynion y sefydliad priodol i gytuno ar y dull gweithredu hwn. Os yw'r pryder yn mynd trwy'r drefn gwynion ffurfiol yna ni fydd Grŵp Cyswllt y Trydydd Sector yn cael adroddiad am y canlyniad.

Bydd y Swyddog Cyswllt yn:

- Gwneud cofnod o'ch pryder(on).
- Penderfynu pwy ddylai ymdrin â'r pryder(on) – gweler uchod.
- Os yw pryder yn berthnasol i'r Cod Ymarfer Ariannu a Monitro, yn ei gyfeirio at yr Adran briodol yn y Cyngor neu'r swyddog priodol yn y Bwrdd Iechyd.
- Ysgrifennu atoch chi i ddatgan pwy fydd yn delio â'ch pryder a sut i gysylltu ag ef/hi, neu sut i fynegi eich pryder trwy weithdrefnau eraill y Cyngor neu'r Bwrdd Iechyd lle byddai hynny'n fwy priodol h.y. y drefn gwynion.
- Hysbysu AVOW am y pryder a nodi manylion pwy sy'n ymdrin â'r mater.
- Monitro beth sy'n digwydd gyda'ch pryder chi, ac yn cyflwyno adroddiad i Grŵp Cyswllt y Trydydd Sector.

Bydd yr adran berthnasol yn y Cyngor neu'r Bwrdd Iechyd yn:

- Archwilio i fanylion eich pryder, a chysylltu â'ch mudiad chi ac unrhyw un arall perthnasol, fel bo'n briodol.
- Ystyried rhannau perthnasol y Cod Ymarfer Ariannu a Monitro.
- Penderfynu a ddylid gweithredu ai peidio.
- Cyflwyno eu penderfyniad i chi yn ysgrifenedig cyn pen 15 diwrnod gwaith ac anfon copi o'r llythyr at y Swyddog Cyswllt ac AVOW.

Cam 2

Os ydych chi o'r farn nas ymdriniwyd â'ch pryderon yn briodol neu'n llawn dan Gam 1, cewch ofyn iddo gael sylw eto. Mae'n rhaid i chi gyflwyno'r cais hwn i'r Swyddog Cyswllt **yn ysgrifenedig**.

Bydd y Swyddog yn:

- Ysgrifennu atoch chi cyn pen 5 diwrnod gwaith i gadarnhau bod eich cais wedi ei dderbyn ac esbonio'r camau nesaf.
- Hysbysu AVOW a'r mudiad perthnasol am y sefyllfa.
- Trefnu ymgynnull y panel* a fydd yn edrych ar eich pryder chi eto.
- Eich hysbysu pryd fydd y panel yn cyfarfod.

- Cadw cofnodion yng nghyfarfod y panel a gweinyddu unrhyw weithredu dilynol ochr yn ochr âg aelod cytunedig y panel, a
- Cadw cofnod o'r gweithredu.

Bydd y panel yn:

- Ailarchwilio manylion eich pryder, gan gysylltu â chi ac unrhyw un arall yn ymwneud â'r pryder, fel bo'n briodol.
- Ystyried rhannau perthnasol y Cod Ymarfer Ariannu a Monitro.
- Gwneud argymhellion i'r mudiad perthnasol neu'r Tîm Rheoli Adran yn y Cyngor, fel bo'n briodol.
- Cyflwyno adroddiad ysgrifenedig yn nodi'r canlyniad cyn pen 15 diwrnod gwaith o ddyddiad y cyfarfod, neu os oes angen rhagor o amser, yn ysgrifennu atoch chi i esbonio beth sy'n digwydd nesaf a phryd y deuir i gasgliad.

Adolygiad

Os yw'r pryder yn parhau heb ei ddatrys, neu os yw'r broses wedi tynnu sylw at faterion ehangach, gellir cynnal rhagor o drafodaethau fel rhan o adolygiad blynyddol y Cod Ymarfer Ariannu a Monitro.

Bydd y Swyddog Cyswllt ac AVOW yn sicrhau bod yr holl bryderon a chanlyniadau'r ymchwiliadau yn cael eu nodi mewn adroddiad i Grŵp Cyswllt y Trydydd Sector.

Gall y Grŵp Cyswllt gytuno ar ragor o gamau gweithredu i ymdrin â'r pryderon fel rhan o'u cynllun gweithredu.

Bydd y Grŵp Cyswllt yn ystyried effeithiolrwydd y weithdrefn hon wrth ymdrin â'r pryderon a fynegwyd.

*** Y Panel**

Aelodau'r panel yw:

- Prif Swyddog AVOW
- Un o Brif Swyddogion y Cyngor
- Rheolwr Gwella Partneriaethau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Cadeirydd neu Gyd-gadeirydd y Pwyllgor Craffu Materion Corfforaethol

Bydd y Swyddog Cyswllt yn darparu cymorth a chefnogaeth weinyddol i'r panel, ond heb yr hawl i bleidleisio.

Dylid mynegi pryderon wrth y swyddog isod yn y lle cyntaf:

Swyddog Cyswllt y Trydydd Sector
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Adeiladau'r Goron – 2af Lawr
Stryt Caer
Tîm Contractau
Wrecsam
LL13 8BG

Rhif ffôn: 01978 295473
Rhif ffacs: 01978 298660
E-bost: Julia.Curtis@wrexham.gov.uk

Darperir cymorth gan:

Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam [AVOW]
Tŷ AVOW
21 Stryt Egerton
Wrecsam
LL11 1ND

Rhif ffôn: 01978 312556
Rhif ffacs: 01978 263980
E-bost: info@avow.org

LLYFRYDDIAETH

Mae “Y Trydydd Dimensiwn, Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Cynllun y Sector Gwirfoddol” yn cadarnhau ymrwymiad y Cynulliad i weithredu Compactau a Chodau Ymarfer Ariannu a Monitro lleol.³ Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi datblygu ‘Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu’r Sector Gwirfoddol’ [Ionawr 2009]. Mae’r Cod hwn yn nodi’r egwyddorion allweddol sy’n sylfaen i’r Cynulliad yn ariannu’r Trydydd Sector a’r hyn mae’r Cynulliad yn ei ddisgwyl yn gyfnewid am hynny.⁴ Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn hyrwyddo datblygu Codau Ymarfer lleol sy’n sicrhau bod trefniadau ariannu lleol yn glir ac wedi eu seilio ar egwyddorion Cod y Cynulliad.

Wrth ddatblygu’r Cod hwn ar gyfer Wrecsam cyfeiriwyd at y dogfennau a ganlyn:

- Compact Wrecsam [2005]
- Llywodraeth Cynulliad Cymru, (2009). Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu’r Sector Gwirfoddol. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.
- Caffael a’r Trydydd Sector: Canllawiau i’r Sector Cyhoeddus yng Nghymru. Llywodraeth Cynulliad Cymru, Mawrth 2008
- Llywodraeth Cynulliad Cymru, “Y Trydydd Dimensiwn, Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Cynllun y Sector Gwirfoddol” Caerdydd: 2008.
- Rheoliadau Ariannol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Cod Ymarfer Caffael Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Strategaeth Gaffael Awst 2009 – Gorffennaf 2012, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Improving Financial Relationships with the Third Sector: Guidance to Funders and Purchasers, Trysorlys Ei Mawrhydi, Mai 2006.
- Dyfodol gyda’n gilydd? Canllaw i lywodraeth leol a’r sector gwirfoddol a’r sector cymunedol yn gweithio gyda’i gilydd yng Nghymru. [Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru / Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru 2003
- Y Comisiwn Elusennau
- Y Comisiwn Elusennau, “CC15b - Charity Reporting and Accounting: The essentials” (Ebrill 2009)

³ Llywodraeth Cynulliad Cymru, “Y Trydydd Dimensiwn, Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Cynllun y Sector Gwirfoddol” Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru. 5.6 tud. 43

⁴ Llywodraeth Cynulliad Cymru, (2009). *Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu’r Sector Gwirfoddol*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru. tud. 1

Y BROSES DDATBLYGU AC YMGYNGHORI

Mae'r Cod Ymarfer Ariannu a Monitro hwn yn nodi'r rheoliadau ariannol a fydd yn llywodraethu cytundebau ariannu'r Trydydd Sector ac mae Canllawiau Comisiynu'r Trydydd Sector yn nodi'r egwyddorion a'r arferion a ddylai fod yn sylfaen i gomisiynu gwasanaethau gan fudiadau Trydydd Sector.

Grŵp Cyswllt y Trydydd Sector yw'r fforwm chwarterol i gynrychiolwyr y Trydydd Sector gyfarfod â swyddogion y Cyngor i drafod materion o ddiddordeb cyffredin.

Lluniwyd y Cod Ymarfer Ariannu a Monitro yn wreiddiol gan weithgor aml-asiantaeth a sefydlwyd gan y Grŵp Cyswllt Partneriaethau yn 2005, ac fe'i adolygwyd yn 2007 a 2011. Dosbarthwyd y rhifyn gyfredol yn eang yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'r Trydydd Sector [AVOW] ar gyfer ymgynghoriad.

Cymeradwywyd Cod Ariannu a Monitro 2004 gan Fwrdd Gweithredol Cyngor Wrecsam a chymeradwywyd fersiynau 2007 a 2011 gan y Grŵp Cyswllt Partneriaethau, Uwch Dîm Rheoli Cyngor Wrecsam a Thîm Rheoli Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.